

YSGOL GLAN Y MÔR, PWLLHELI
ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR
2018-19

CORFF LLYWODRAETHU 2018/19

PENNAETH:
Mrs Menai Jones

RHIANT-LYWODRAETHWYR: Etholir hwy gan y rhieni am dymor o 4 blynedd.

Mrs Nia Hughes	-	Mawrth 2022
Mr Steven Jones	-	Awst 2022
Mr Steven Love	-	Awst 2020
Mr Haydn Jones	-	Awst 2019
Mr Dyfed Pritchard	-	Awst 2022

ATHRO-LYWODRAETHWYR: Etholwyd gan yr athrawon o'u plith eu hunain

Mr Bleddyn Humphreys	-	Awst 2021
Mrs Andrea Roberts	-	Awst 2019

STAFF-LYWODRAETHWYR: Etholwyd gan staff ategol yr ysgol o'u plith eu hunain

Miss Hayley Platt	-	Awst 2020

LLYWODRAETHWYR A.A.Ll. GWYNEDD: Penodir hwy gan yr Awdurdod Addysg Lleol

Ms Carys Elis Jones	-	Medi 2022
Cyng. Hefin Underwood	-	Awst 2021
Mrs Eryl Parry Jones	-	Awst 2019
Mr Peredur Williams	-	Medi 2021

LLYWODRAETHWYR CYMUNEDOL: Gwahoddir hwy i ymuno â'r Bwrdd oherwydd eu harbenigedd.

Parch Bryn Williams	-	Rhagfyr 2022
Mrs Ffion G. Williams	-	Gorffennaf 2023
Mrs Hayley Williams	-	Medi 2021
Mr Meurig Jones	-	Awst 2020

CYNGOR YSGOL: Cynrychioli'r disgyblion

Anna Griffith	-	Awst 2019
Morgan Jones	-	Awst 2019

Ex- Officio : Mr Guto Wyn a Miss Llinos W Griffith.

Clerc i'r Llywodraethwyr - Miss Anwen Bumby, Rheolwr Busnes, Ysgol Glan-y-môr

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth, neu Rheolwr Busnes yr ysgol

Cynhelir etholiad nesaf am riant llywodraethwr yn ystod Medi 2019.

CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

i) Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd i bob disgybl ym Mlwyddyn 10 dreulio wythnos ar "Brofiad Gwaith". Diolchwn i fusnesau lleol am eu cydweithrediad parod.

ii) Fel rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol, bu'r Rhingyll Dewi Owen yn ymweld â'r ysgol yn gyson, i drafod materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnydd o TGCH a chamddefnyddio sylweddau e.e. cyffuriau ac alcohol. Cydweithiwn yn yr un modd â'r Adran Hybu Iechyd. Bydd nyrs yn cynnal 'clinig' wythnosol yn yr ysgol. Yn ogystal mae'r nyrs yn cyfrannu i wersi ABCH.

iii) Trefnwyd Ffair Aeaf gan ddisgyblion blwyddyn 10 sydd yn dilyn cwrs BAC, gwahoddwyd nifer o fusnesau ac elusennau lleol i arddangos a gwerthu eu cynnyrch.

iv) Parheir i gydweithio, pan yn briodol, gydag Asiantaethau allweddol megis y Gwasanaethau Cymdeithasol.

v) Gwahoddwyd nifer o henoed yr ardal i de prynhawn bob hanner tymor a pharatowyd y te gan ddisgyblion Arlwyo'r ysgol. Bu i'n gyfeillion gael ei diddanu gydag eitemau cerdd o dan arweiniad Mr Iwan Williams Pennaeth Cerdd yr ysgol.

vi) Bu i ddisgyblion yr ysgol gymryd rhan mewn cystadleuaeth wedi ei drefnu gan fudiad y "Rotary" yma ym Mhwllheli.

vii) Bu Heddlu Gogledd Cymru mewn nosweithiau i rieni i son am faterion diogelwch.

viii) Rhoddodd disgyblion yr ysgol gefnogaeth ymarferol i fudiadau megis: " Macmillan", Mind a Phlant Mewn Angen.

ix) Mae'r ysgol yn parhau i noddi plentyn yn y trydydd byd drwy gynllun "Action Aid".

x) Bu disgyblion yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn eisteddfodau lleol , Eisteddfodau'r Urdd ac ar y meysydd chwaraeon.

xi) Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus yng Nghapel y Drindod, Pwllheli.

xii) Bu côr yr ysgol gymryd rhan mewn gwasanaeth Nadolig Sefydliad y Merched Sir Caernarfon a gwasanaeth blynyddol Cymorth Cristnogol ym Mhwllheli.

xiii) Bu cynrychiolwyr o fusnesau lleol yn ymweld â'r ysgol er mwyn gwella'r berthynas rhwng yr ysgol a "byd gwaith".

xiv) Cedwir cysylltiadau agos â'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo a gyda Choleg Meirion-Dwyfor. Bu cynrychiolydd o'r Coleg yn mynychu'r ysgol yn achlysurol. Bu nifer o ddisgyblion Blw-10 / 11 yn dilyn cyrsiau galwedigaethol am gyfnod brynhawn yr wythnos yn y coleg. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 o'r ysgolion y dalgylch yn ymuno mewn gweithgareddau siarter iaith a gweithgareddau BAC blwyddyn 10.

xv) Ymdrechir i greu, a chadw, cysylltiad agos ac agored gyda rhieni ein disgyblion. Bydd aelod o'r Uwch Dim Rheoli ar gael bob amser i weld unigolion. Trefnwyd 'clinig' i geisio goresgyn problemau pynciol a chynhaliwyd Cyfarfod Rhieni ar gyfer pob blwyddyn yn eu tro a chyfarfodydd ychwanegol i drafod agweddau perthnasol o waith y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

xvi) Mae'r ysgol yn cydweithio gydag Antur Waunfawr trwy gasglu dillad i'w hail gylchu. Gosodwyd bin casglu dillad ar dir yr ysgol.

xvii) Cafwyd ymweliad cyn y Nadolig gan griw Sioe Cyw a braf gweld cannoedd o blant ifanc yn ymweld â'n hysgol.

xviii) Defnyddir caeau'r ysgol gan Glwb Pêl droed Ieuenctid Pwllheli.

xix) Gwefan yr ysgol. Yno ceir gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r ysgol. Cyfeiriad y safle ydi: www.ysgolglanymor.cymru

POLISÏAU

Yn ystod y flwyddyn mabwysiadwyd y polisïau a nodir yn atodiad 1 gan y Llywodraethwyr:

IECHYD A DIOGELWCH

i) Derbyniodd to'r gampfa sylw yn ystod y flwyddyn.

ii) Fel rhan o gynllun uwchraddio drysau allanol yr adeilad uwchraddiwyd drysau yn y bloc iaith yn ystod y flwyddyn.

iii) Derbyniodd y gegin marc safon 5 am hylendid bwyd eto eleni.

iv) Tynnu lluniau - o ganlyniad i newidiadau i ddeddf diogelu data 2018, mae'n bellach yn ofynnol i rieni rhoi eu caniatâd i 'r ysgol dynnu lluniau disgyblion ar gyfer defnydd cyhoeddusrwydd neu arddangosfeydd. Rhoddwyd ffurflen ganiatâd i bob disgybl fynd adref i riant llofnodi ond o fis Medi ymlaen disgyblion sy'n trosglwyddo neu yn ymuno a'r ysgol yn unig fydd yn derbyn ffurflen ganiatâd. Mae'r hawl i dynnu lluniau a'u defnyddio yn parhau am 5 mlynedd os na dderbynnir llythyr yn tynnu'r hawl yn ôl.

v) Y mae'r ysgol yn cadw data personol am ddisgyblion ac wedi cofrestru hynny gyda'r Cofrestrydd Data. Y mae yma system teledu cylch cyfyng sydd yn recordio a'i defnyddio i bwrpas diogelwch.

Gellir gweld copi o ddatganid preifatrwydd yr ysgol drwy ymweld â gwefan yr ysgol neu drwy ofyn am gopi gan Bennaeth yr ysgol.

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG / DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Derbyniodd y Llywodraethwyr adroddiad am waith yr Adran gan y Llywodraethwraig ddynodedig.

Nod yr ysgol yw sicrhau'r ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol, orau bosib i ddisgyblion ag anghenion arbennig, gan sicrhau hefyd cyfleoedd cyfartal iddynt o'u cymharu â disgyblion eraill.

Mae gennym athrawes sef Mrs Sue Peace,sy'n arbenigo mewn addysgu disgyblion ag anawsterau dysgu penodol (Dyslecsia), yn gyflogedig yma yn yr ysgol yn rhan amser. Bellach mae gan yr ysgol uned gynhwysiad ble mae athrawes arbenigol yn gweithio gyda disgyblion sydd angen sylw i reoli ymddygiad a chymorth gyda rhai agweddau o'u gwaith.

Bellach mae Cyngor Gwynedd wedi addasu'r adeilad i wneud pethau yn rhwyddach i ddisgyblion ag anableddau, gwneir pob ymdrech i sicrhau mynediad i bob disgybl.

CHWARAEON

Nodau:

i) Sicrhau bod cynifer ag sy'n bosib o'r disgyblion yn cymryd rhan, yn mwynhau a chael cyfle i ddatblygu eu sgiliau chwaraeon i'r lefel uchaf bosibl.

ii) Cynnig ystod eang o chwaraeon – ar gyfer unigolion a thimau.

iii) Trefnu chwaraeon gyda thimau o blith yr ysgol ac yn erbyn timau o ysgolion eraill.

iv) Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion i gynrychioli'r ardal, y sir a Chymru.

v) Annog disgyblion i fanteisio ar weithgareddau 5 x 60.

Y Gweithgareddau a gynigir:

Pêl droed, Hoci, Nofio, Pêl-rwyd, Rhedeg Traws-gwlad, Rygbi, Rownderi, Criced, Badminton, Pêl-fasged, Gymnasteg.

Yr Amserlen:

O fewn amserlen 30 cyfnod, neilltuir 2 gyfnod yr wythnos ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon, yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yng Nghyfnod Allweddol 4, neilltuir 1 cyfnod yr wythnos ar gyfer chwaraeon. Cynigir cwrs TGAU yn y maes i Flw-10 ac 11.

Y Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol 2 maes pêl-droed, 1 maes rygbi a 1 maes hoci. Mae cyrtiau ar gyfer tennis a phêl-rwyd. Mae llain ar gyfer rownderi a wiced bob tywydd ar gyfer criced. Caiff yr ysgol ddefnydd bob dydd naill ai o'r Pwll Nofio neu'r Neuadd Chwaraeon yn y Ganolfan Hamdden.

Mae maes aml bwrpas ar safle'r ysgol sydd ar gael ar gyfer defnydd gan yr ysgol, ysgolion cynradd y dalgylch a'r gymuned leol.

Staffio:

Mae dau aelod o staff arbenigol yn yr adran Addysg Gorfforol gydag aelod arall o staff yn cyfrannu'n rhan-amser. Gwneir defnydd, hefyd o staff arbenigol y Ganolfan Hamdden ar gyfer rhai gweithgareddau (e.e. nofio, cynllun ffitrwydd unigol).

Mae cyswllt agos hefyd â chlybiau chwaraeon lleol e.e. Y Clwb Rygbi, Pêl-droed a hoci; y mae cydweithio agos, gan rannu arbenigedd staff a chyfleusterau.

CYNLLUN 5 X 60

Mae Swyddog 5 X 60 Dwyfor yn gweithio yn agos â'r ysgol i drefnu gweithgareddau amrywiol i hybu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau a drefnwyd oedd : dodgeball, cheer leading; sboncen; hyfforddiant cerdded, dringo, hwylio, beicio, dawnsio a rhedeg.

CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG

Cynhaliodd Estyn Arolwg ar Ysgol Glan y Môr ym mis Ionawr 2017 a chyfeiriwyd at y "argymhellion" canlynol y dylai'r ysgol ymateb iddynt-

- Sicrhau bod y deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill
- Sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a TGCh yn bodloni gofynion yr ystod gyfan o ddisgyblion ar draws yr ysgol
- Sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u dosrannu'n briodol i hwyluso capasiti'r uwch dîm rheoli i weithredu'n strategol
- Miniogi'r prosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella a sicrhau bod arweinwyr yn llwyr ymwybodol o arwyddocâd data perfformiad wrth arfarnu safonau ac ansawdd yr addysgu

Paratowyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn monitro gweithrediad y cynlluniau hyn yn ystod y flwyddyn.

TARGEDAU'R YSGOL

Mae'r ysgol yn asesu perfformiad disgyblion drwy gydol eu cwrs addysg ac yn defnyddio'r asesiadau hyn, yn ogystal ag asesiadau hanesyddol y disgyblion (yn ôl lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol), ar gyfer gosod targedau erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 a 4. Dechreuir drwy drafod hyn ar raddfa adran ac ysgol ac yna fe ddaw swyddogion addysg o'r Awdurdod i drafod y targedau gyda ni. Disgwylir i ni osod targedau sydd yn heriol ond yn gyraeddadwy; gwnaed hyn a chymeradwywyd y targedau canlynol ar gyfer 2019-20

CA4

1. Saesneg Iaith: Targed 65%
2. Cau'r bwlch rhwng perfformiad y Bechgyn a'r Merched yn Saesneg

3. Mathemateg: Targed 60%
4. Cau'r bwlch rhwng perfformiad Bechgyn a Merched yn Mathemateg
5. TGCh: Targed 96%

Lles a Chynhwysiad

6. Presenoldeb: Targed 96%
7. Leihau nifer y gwaharddiadau 1-5 diwrnod

CA3

8. Cymraeg – targed o 94% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu well
9. Saesneg – targed o 94% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu well
10. Mathemateg – targed o 94% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu well
11. Gwyddoniaeth – targed o 94% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu well
12. Ffrangeg – targed o 18% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 7 neu well
13. Daearyddiaeth – targed o 67% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 6 neu well

Dyma sut yr oedd canlyniadau 2019 yn cymharu â'n targedau

CA3	Canlyniad	Targed
Cymraeg L5+	98.0%	96.6%
Saesneg L5+	93.3%	98.9%
Mathemateg L5+	93.3%	97.7%
Gwyddoniaeth L5+	100%	100%
DPC	93.3%	96.6%

CA4	Canlyniadau 2019	Targed 2019	Targed Cynulliad 2019
Trothwy Lefel 2	77.1%	79.5%	76.7%
Trothwy Lefel 1	100%	100%	98.1%
Trothwy Lefel 2+ (iaith yn unig)	59.0%	63.9%	60.9%
Trothwy Lefel 2++ (iaith neu llen)	60.2%		
Bagloriaeth Cymru - cenedlaethol	55.4%	63.9%	
Bagloriaeth Cymru – Sylfaenol neu well	98.8%	100%	
Sgôr bwyntiau cyfartalog 9 fesul disgybl	370		
% digymhwyster	0	0	
% presenoldeb	94.7%	95.5%	

DISGYBLION 2019

Roedd 83 o ddisgyblion yn 15 oed ar Fedi'r 1af, 2018. O'r rhain, aeth 21 i astudio ar gyrsiau lefel A, 48 ymlaen i gyrsiau galwedigaethol, 5 i hyfforddiant, 7 yn gweithio, 2 yn ddi waith.

PRESENOLDEB

Dyma ffigyrau'r ysgol, fesul blwyddyn a fesul tymor ar gyfer 2018-19

	Absenoldeb **Heb** Awdurdod			**Presenoldeb**		
	Tymor 1	**Tymor 2**	**Tymor 3**	**Tymor 1**	**Tymor 2**	**Tymor 3**
Blwyddyn 7	0.0%	0.01%	0.48%	96.09%	94.85%	93.77%
Blwyddyn 8	0.0%	0.0%	0.85%	95.55%	95.15%	93.37%
Blwyddyn 9	0.34%	0.14%	1.3%	93.63%	93.38%	91.90%

Blwyddyn 10	0.91%	0.47%	1.66%	94.26%	95.15%	91.5%
Blwyddyn 11	0.07%	0.205%	0.06%	93.85%	95.13%	98.69%

PROSEPECTWS YR YSGOL

Nid yw'r Llywodraethwyr yn cymeradwyo i deuluoedd drefnu gwyliau yn ystod y tymor, yn enwedig os yw'r disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11. Dylech gysylltu â'r Pennaeth i drafod unrhyw gais i fynd â disgybl o'r ysgol ar wyliau yn ystod tymor ysgol.

CWRICWLWM

Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7,8 a 9)

Mae'r ysgol yn cyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd yn diwallu anghenion bob disgybl. Ar hyn o bryd mae 3 dosbarth cofrestru ym mlwyddyn 7, 4 ym mlwyddyn 8 a blwyddyn 9, gyda rhwng 20 a 30 ymhob un. Mae yna un dosbarth ble mae disgyblion blwyddyn 8 a 9 yn cael eu haddysgu ar y cyd. Ym mlwyddyn 7, 8 a 9 caiff y disgyblion eu dysgu mewn grwpiau gallu cymysg ac eithrio'r pynciau craidd.

Ym mlynyddoedd 7,8 a 9 addysgir y pynciau canlynol:
Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Celf, Technoleg, TGCh, Addysg Gorfforol ac Iechyd a Lles. Bydd Blwyddyn 7 yn astudio pwnc Dyniaethau sef cyfuniad o Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol. Ar ddiwedd blwyddyn 9 bydd y disgyblion yn dewis eu pynciau ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

Bydd rhai disgyblion yn derbyn gwersi estynedig Saesneg a bydd hwyrddyfodiad i Flynyddoedd 7,8 a 9 yn treulio amser yn yr uned iaith ym Mhorthmadog er mwyn dysgu'r iaith Gymraeg.

Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11)

Mae pob disgybl yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel sylfaen neu ganolradd, Mae pob disgybl yn dilyn y cyrsiau canlynol: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg , Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol . Yn ogystal, mae grwpiau opsiwn sydd yn cynnwys y pynciau canlynol:
Dylunio a Thechnoleg, Arlwyo, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, Iechyd a Gofal, Busnes, Sgiliau Gwaith, Drama, Cymru Ewrop a'r Byd, Cadwraeth a Sgiliau Bywyd. Mae'r disgyblion yn gallu mynychu'r coleg lleol i astudio'r pynciau canlynol: Peirianneg Forwrol, Astudiaethau Cyfryngau ac Amaeth.

Mae rhai disgyblion yn dilyn cwricwlwm amgen sydd yn golygu bod eu hamserlen wedi eu teilwrio yn arbennig ac yn cynnwys elfen o brofiad gwaith estynedig.

IAITH GYMRAEG

Ethos Gymreig sydd i'r ysgol a'r Gymraeg yw ein hiaith cyfathrebu a'n iaith weinyddol. Y mae y rhan fwyaf o weithgareddau'r ysgol, megis y gwasanaethau boreol, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg yw iaith y cyfnodau tiwtorial ond bydd yr athrawon yn cyfieithu ar gyfer yr hwyrddyfodiaid. Byddwn yn trefnu i ddisgyblion CA3(Blwyddyn 7-9) fynd i'r uned iaith leol ar gwrs dwys i ddysgu'r Gymraeg. Byddwn yn annog yr hwyrddyfodiaid i wneud mwy a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyfnodau tiwtorial hyn wrth i safon eu Cymraeg wella.

Yn unol â Pholisi Iaith y Sir y mae holl ddisgyblion yr ysgol yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau craidd hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae pawb, oni bai am yr hwyrddyfodiaid (sy'n cyrraedd yn ystod blynyddoedd 7-9), a disgyblion Ail Iaith sy'n trosglwyddo o'r cynradd ar Lefel 1 neu 2 yn y Gymraeg yn ei hastudio fel mamiaith ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol Iaith Gyntaf. (categori 2A - Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Y mae'r mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn perthyn i un o'r carfanau isod:
Carfan A: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Carfan B: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
Carfan C1: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
Carfan C2: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod eu Cymraeg yn wan iawn.

Cyfrwng dysgu'r pynciau eraill
CA3 - Bydd disgyblion yr holl garfanau, ac eithrio'r unigolion sy'n perthyn i Garfan C2, yn cwblhau eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc. Er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion ac ymateb i anghenion gwahanol garfanau gwneir y canlynol :

Bydd termau / rhai termau pynciol yn cael eu harddangos a'u dysgu'n ddwyieithog.
Bydd disgyblion C1 yn cwblhau gymaint o'u gwaith drwy'r Gymraeg ag y mae disgyblion carfanau A + B. Os gofynnant, bydd y disgyblion yn derbyn copi dwyieithog / copi Saesneg o ambell gwestiwn / nodiadau / papur prawf er mwyn gallu croesgyfeirio neu gael cymorth ychwanegol gan rieni gartref.
Er mwyn sicrhau dwyieithrwydd pob disgybl, cynllunnir defnydd bwriadus o'r Saesneg mewn pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. erthyglau, fideo, DVD, gwefannau, rhaglenni cyfrifiadurol yn Saesneg. Rhydd hyn hefyd gyfle i ddisgyblion arfer eu sgiliau trawsieithu.

Wedi i ddisgyblion Carfan C2 fod yn y Ganolfan Iaith bydd targed(au) tymor byr yn cael eu gosod i'r disgyblion gan y Cyd-gysylltydd Ail Iaith. Gofynnir i rai athrawon / pynciau greu cyfleoedd penodol i'r disgyblion hyn gael cwblhau tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny gael cyfle i gyrraedd eu targed(au.) Bydd yr union dargedau a'r union bynciau a ddewisir yn dibynnu ar gyraeddiadau ieithyddol disgyblion unigol.

CA4 -Ein nod yw sicrhau dilyniant i'r hyn sy'n digwydd yn ystod CA3 a pharhau i hyrwyddo hyfedredd oed-berthnasol yn y ddwy iaith. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng astudiaeth yn CA4. Byddwn yn sicrhau dealltwriaeth o dermau pynciol yn ddwyieithog ac yn sicrhau fod papurau arholiad cyfrwng saesneg ar gael i ddisgyblion. Bydd y Cyd-gysylltydd Iaith yn trafod iaith y pynciau dewisol gyda'r disgyblion lle bo'r angen er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol priodol.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae toiledau wedi eu lleoli yn y bloc iaith, prif adeilad ac yn y gampfa. Mae yna doiledau ar gyfer yr anabl yn holl o'r adeiladau ac eithrio'r gampfa. Mae'r cyfleusterau yma yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

LLYWODRAETHWYR YN CYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHIENI

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013 (adran 94 (13) nid oes yn rhaid i Gyrff Llywodraethwyr yr ysgol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn i gael cyfarfod y Llywodraethwyr am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael fwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy unai: Gysylltu â'r ysgol, safle we'r ysgol neu drwy fynd ar safle we'r Cynulliad.
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-a-gynhelir-yng-nghymru-ynghylch-y-ddyletswydd-i-gynnal-cyfarfodydd-gyda-rhieni.pdf

Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod gyda'r llywodraethwyr o dan y ddeddf uchod.

DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2019-20

Tymor yr Hydref
Medi 2, 2019 → Rhagfyr 20, 2019
Tymor y Gwanwyn
Ionawr 6, 2020 → Ebrill 3, 2020
Tymor yr Haf
Ebrill 20, 2020 → Gorffennaf 20, 2020
Gwyliau eraill

Hanner tymor yr Hydref	Hydref 28 – Tachwedd 1, 2019
Hanner tymor y Gwanwyn	Chwefror 17-21, 2020
Hanner tymor yr Haf	Mai 25 – 29, 2020

BWYTA'N IACH

Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn mesur bwyta'n iach Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol a swyddogion y cwmni arlwyo a'r gogyddes. (grŵp SNAG) Mae mewnbwn y disgyblion yn cael ei ymgyffori ym mwydlenni'r ysgol. Bydd y cynrychiolwyr y disgyblion yn rhaeadru eu penderfyniadau yn ôl i'w cyd ddisgyblion.

Canlyniadau'r Ysgol

CYFNOD ALLWEDDOL 3

Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2019) ac yn genedlaethol (2018) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

		N	D	NC 1,2, 3	1	2	3	4	5	6	7	8
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	7	23	43	25	3
	Cenedlaethol	0.4	0.3	-	0.3	0.5	1.6	5.4	29.6	38.2	21.4	2.0
Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	2	32	44	20	2
	Cenedlaethol	0.1	0.2	-	0.1	0.1	0.6	5.0	30.0	41.3	19.6	2.9
Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	7	24	37	32	0
	Cenedlaethol	0.3	0.3	-	0.2	0.4	1.4	5.5	25.3	33.6	27.4	5.3
Gwyddoniaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	23	51	26	0
	Cenedlaethol	0.4	0.3	-	0.3	0.3	0.8	3.9	26.6	39.0	26.6	1.4
Cymraeg Ail Iaith	Ysgol	0	0	0	0	0	0	33	67	0	0	0
	Cenedlaethol	1.2	1.7	-	0.5	0.6	2.4	8.7	35.0	33.6	15.0	1.0
Ffrangeg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	16	33	50	0	0
	Cenedlaethol	1.4	1.6	-	0.4	0.7	1.9	7.5	30.8	34.9	19.7	1.0
Dylunio a Thechnoleg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	20	52	28	0
	Cenedlaethol	0.6	0.5	-	0.3	0.3	0.7	3.9	28.9	43.3	20.3	1.0
Technoleg Gwybodaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	19	50	26	1
	Cenedlaethol	0.6	0.5	-	0.2	0.3	0.8	3.6	24.1	44.0	24.9	0.9
Hanes	Ysgol	0	0	0	0	0	0	6	34	33	25	2
	Cenedlaethol	0.6	0.5	-	0.2	0.4	0.9	5.1	27.5	39.4	22.6	2.4
Daearyddiaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	39	45	12	0
	Cenedlaethol	0.6	0.5	-	0.3	0.3	0.9	4.9	28.3	38.5	22.9	2.5
Celf	Ysgol	0	0	0	0	0	0	2	22	32	34	10
	Cenedlaethol	0.5	0.5	-	0.2	0.3	0.7	3.5	28.8	41.2	21.3	2.7
Cerddoriaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	12	69	17	2
	Cenedlaethol	0.7	0.6	-	0.3	0.3	0.5	3.8	34.1	42.9	14.4	2.0
Addysg Gorfforol	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	33	42	16	0
	Cenedlaethol	0.6	0.6	-	0.3	0.2	0.7	3.7	34.3	40.3	17.0	2.2

Dangosydd Pwnc Craidd*	
Ysgol	93.33
Cenedlaethol	88.1

D = Wedi'u heithrio neu ddatgymhwyso o dan Adran 113-116 o Ddeddf Addysg 2002
NO1,2,3= Yn gweithio tuag at Lefel 1 N = Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso
- = gwybodaeth ddim ar gael
* Y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn naill ai Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.
Sylwer: mae'n bosibl i gyfanswm y rhifau beidio bod yn 100% o achos rowndio

Ysgol Glan Y Môr
Adroddiad Cryno o Gyraeddiadau disgyblion 15 oed 2018/19

Rhif AALL/Ysgol. 661/4040

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
SSSP

Nifer y disgyblion blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019: 83

	Mesur Capio 9 (interim)	Mesur llythrennedd	Mesur rhifedd	Mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
Ysgol 2018/19	370	42	37	39	43
Ardal AAL 2018/19	-	41	37	38	-
Cymru 2018/19	-	39	37	37	-
Ysgol 17/18/19	-	44	38	39	-
Ysgol 16/17/18	-	-	-	-	-

Nifer y bechgyn ym mlwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019: 50

	Mesur Capio 9 (interim)	Mesur llythrennedd	Mesur rhifedd	Mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
Ysgol 2018/19	368	42	38	40	42
Ardal AAL 2018/19	-	39	37	38	-
Cymru 2018/19	-	36	36	35	-
Ysgol 17/18/19	-	42	38	39	-
Ysgol 16/17/18	-	-	-	-	-

Nifer y merched ym mlwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019: 33

	Mesur Capio 9 (interim)	Mesur llythrennedd	Mesur rhifedd	Mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
Ysgol 2018/19	373	44	36	38	44
Ardal AAL 2018/19	-	43	37	39	-
Cymru 2018/19	-	42	38	38	-
Ysgol 17/18/19	-	46	37	39	-
Ysgol 16/17/18	-	-	-	-	-

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) http://www.qiw.wales/

(2) Am fanylion ar gyfrifo'r dangosyddion hyn gweler y nodyn cyfarwyddyd yn: https://llyw.cymru/trefniadau-interim-perfformiad-ysgolion-yng-nghyfnod-allweddol-4

- Data ddim ar gael.

CYLLID

Manylion am wariant terfynol 2018-19 yn amgaeedig. Defnyddiwyd y balansau ar gyfer gwneud fyny'r diffyg yng nghyllideb 2019/20

Ni thelir costau teithio i unrhyw un o aelodau'r corff llywodraethu.

Cyfrifon Terfynol 2018/19

	Cyllideb cychwynnol	addasiadau	Cyllideb diwygiedig	Cyfanswm terfynol	gwahaniaeth
Athrawon	1655447	11189	1666636	1635113	31523

Athrawon Llanw ad-daliad	43816		43816	34244	9572
Athrawon Llanw arall	0		0	0	0
Lleihau Baich Athrawon	28000		28000	15764	12236
Staff Ategol Misol	171811		171811	166595	5216
Staff Ategol amser cinio	20000		20000	35071	-15071
Cymorthyddion	242655	-8513	234142	225986	8156
Gwariant gweithgareddau Arloesi	18000		18000	8870	9130
Arloesi Cynradd /Uwchradd	10000		10000	1998	8002
Datblygu Staff	3000		3000	-5438	8438
Recriwtio	1200		1200	1200	0
Gwarchod Arholiadau	6000		6000	3215	2785
Cynnal a Chadw	25000		25000	25000	0
Cynnal a Chadw newydd	12000		12000	13523	-1523
Trydan	17000		17000	24621	-7621
Nwy	12000		12000	10218	1782
Dwr	6000		6000	6306	-306
Contract Glanhau	58320		58320	53210	5110
Defnyddiau Glanhau	1000		1000	1450	-450
Offer Ymladd Tan	750		750	728	22
Cynllun Rheoli Carbon	100		100	100	0
Trethi	63740		63740	63740	0
Cynnal Tiroedd	13680		13680	13680	0
band eang	11977		11977	11977	0
Lwfansau Ceir	1000		1000	1111	-111
Lwfans y Pen	40000		40000	33840	6160
Cyfrifiaduron	3000		3000	2374	626
Canolfan Hamdden	0		0	0	0
Dodrefn	1000		1000	46	954
Costau Arholi	50000		50000	46959	3041
Adnoddau i ddatblygu'r cwricwlwm	2500	3300	5800	1184	4616
Defnyddiau Swyddfa	1200		1200	845	355
Post	2500		2500	2130	370
Ffôn	1700		1700	1477	223
Cynhaliaeth	500		500	44	456
Pwll Nofio	6600		6600	7168	-568
Gwasanaethau Cynnal	22781		22781	22781	0
Cerdd	4000		4000	1402	2598
Grant amddifadedd	-66700		-66700	-66700	0
Gwariant GAD	10000		10000	7253	2747
Llwybrau dysgu 14-19	4000		4000	758	3242
Gwefan a thrwyddedau cyfrifiadurol	6000		6000	6266	-266
gwasanaeth llyfrgell	630		630	630	0
Cyfieithu	1000		1000	682	318
Gweithgareddau ar ôl ysgol	3000		3000	2101	899
Mentoriaid	0		0	-88	88
Grant Gwella Addysg	0		0	-9306	9306
Siarter Iaith	0		0	1000	-1000
Grant refeniw	15300	-15300	0	0	0
Gwariant Grant Plant Mewn Gofal	0		0	4600	-4600
Gwariant nwyddau hylendid	0		0	780	-780
Arian Newydd	11935		11935	11935	0
Prydau ysgol	44764		44764	55702	-10938
archebion blwyddyn flaenorol	1300		1300	1300	0
Arian wrth gefn	9606		9606	0	9606
cyfanswm gwariant	2599112	-9324	2589788	2485445	104343
Gosodiadau	-2000		-2000	-990	-1010
Incwm arall	0		0	-33	33
Grant Tal athrawon	0		0	-11262	11262
Grant siarter iaith	0		0	-1000	1000
Arloesi	-30000		-30000	-30000	0

Grant Plant mewn gofal	0		0	-4600	4600
llog ar balansau	0		0	-1557	1557
Grant nwyddau hylendid	0		0	-780	780
secondiadau i Gwe (cynnwys mentora)	0		0	-11525	11525
Grant yr adran Saesneg gan Gwe	0		0	-8000	8000
Grant Gwricwlwm newydd	0		0	-11218	11218
Eiriolwyr	0		0	-1680	1680
Cynllun ataliadau	0		0	-34419	34419
Cyfanswm Incwm	-32000		-32000	-117064	85064
Cyfanswm terfynol	2567112	-9324	2557788	2368381	189407

*Defnyddiwyd y balansau i wneud i fyny am y diffyg yng nghyllideb 2018/19

ATODIAD 1

POLISÏAU A ADOLYGWYD A FABWYSIADWYD YN YSTOD 2018-19

Polisi Dirprwyo Cyfrifoldeb Ariannol
Polisi Amddiffyn Plant
Polisi Cwricwlwm
Polisi Diogelu Plant mewn Addysg
Polisi Iechyd a Diogelwch
Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio
Polisi Arholiadau a chynllun argyfwng
Polisi Asesu – BTEC
Polisi Cyflogau ac athrawon a strwythur staffio
Polisi cofrestru presenoldeb a phrydlondeb disgyblion
Polisi Dysgwyr Mwy galluog a thalentog
Gweithdrefnau Delio a Chwynion
Polisi Ymweliadau
Polisi Cwynion (staff)
Polisi Cydraddoldeb
Polisi Plant mewn Gofal
Polisi Cronfa Ysgol
Cod Ymarfer Athrawon Llanw
Polisi e-ddiogelwch
Polisi Asesiadau dan reolaeth
Polisi Tynnu Llun
Polisi Rheoli Risg – asesiadau dan reolaeth
Polisi Codi Tâl am Weithgareddau
Polisi Mynediad
Polisi Cyd Addoli
Polisi Gweithredu Mewn Argyfwng
Polisi Hunan arfarniad
Polisi Defnyddio Grym Rhesymol
Polisi Tymheredd yn y gweithle
Cynllun Pontio CA2 i CA3
Polisi Urddas yn y gwaith
Polisi Deddf Diogelu Data
Cytundeb cartref ag ysgol
Amseroedd Sesiynau Ysgol
Polisi Cloi Mewn Argyfwng
Polisi Disgyblaeth (staff)
Polisi ADY
Polisi Gwirfoddolwyr
Polisi Addysg Rhyw
Polisi Camddefnyddio Sylweddau
Polisi Alcohol a Chyffuriau
Polisi Rheoli Perfformiad
Polisi Camymddwyn Staff

BLAENORIAETHAU YSGOL GLAN Y MÔR 2019-20

Codi safonau'r ysgol drwy:

- Gweithredu i sicrhau fod pob disgybl CA4 yn perfformio yn dda iawn yn yr arholiadau TGAU ym mhob pwnc.
- Gweithredu i sicrhau fod pob disgybl yn gweithio'n galed i lwyddo i gyrraedd eu targed personol.

Ymddygiad:

- Sicrhau fod polisi ymddygiad yr ysgol yn cael ei barchu a'i weithredu yn gyson ac yn deg.
- Cofnodi agwedd at ddysgu ym mhob gwers.
- Cyfathrebu efo rhieni yn fuan pan mae unrhyw broblemau efo ymddygiad.

Presenoldeb

- Cefnogi pob disgybl i gyrraedd eu targed presenoldeb o 96%.

Cwricwlwm

- Cynllunio dewis da o bynciau addas i bob disgybl yn CA4.
- Datblygu'r cwricwlwm i gyd fynd â disgwyliadau cenedlaethol yn CA3.

Cefnogaeth

- Sicrhau'r gefnogaeth orau bosib i unrhyw ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Asesu

Gwella ansawdd ac effaith asesu drwy:

- roi adborth clir ar waith pob disgybl ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- ddarparu adroddiadau interim sy'n egluro a mesur cynnydd yn rheolaidd.
- darparu adroddiadau manwl ar gyfer rhieni / disgyblion.

Arweinyddiaeth

Rydym yn gweithredu i sicrhau bod arweinyddiaeth ar bob lefel yn effeithlon.